| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **24 CHWEFROR 2026** |
| **PWNC:** | **POLISI GOSTYNGIADAU DEWISOL Y DRETH GYNGOR - CYFLWYNO GOSTYNGIAD O 100% AR GYFER AELWYDYDD LLE MAE UNIGOLYN SYDD Â SALWCH TERFYNOL YN BYW** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **LLINOS MAIR ROBERTS**<br><br>01248 752651<br>LlinosRoberts5@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | Amherthnasol |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Argymhellion**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell y canlynol i'r Cyngor:-

1. **Cymeradwyo'r** newid i Bolisi Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, er mwyn cyflwyno gostyngiad o 100% ar gyfer aelwydydd lle mae unigolyn sydd â salwch terfynol yn byw, yn unol ag Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
2. **Gweithredu'r** polisi o 1 Ebrill 2026, gan sicrhau fod proses ymgeisio a dogfennau ategol (gan gynnwys ardystiad SR1) ar waith.
3. **Dirprwyo awdurdod** i'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau weinyddu'r cynllun a gwneud unrhyw fân addasiadau gweithredol fydd angen eu gwneud.
4. **Monitro ac adolygu** effaith y polisi ar ôl 12 mis a chyflwyno'r canfyddiadau i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar y polisi presennol ym mis Chwefror 2022 a phleidleisiodd y Cyngor llawn arno ym mis Mawrth 2022. Felly, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar unrhyw ddiwygiadau i'r polisi presennol a rhaid i'r Cyngor llawn bleidleisio arno.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Amherthnasol

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Bydd y newid yn arwain at ostyngiad yn yr incwm a godir drwy'r Dreth Gyngor ond, ar hyn o bryd, nid yw'n bosib mesur y gost oherwydd mae'n ddibynnol ar nifer y ceisiadau a dderbynnir, ar fand yr eiddo byddai'r eithriad yn berthnasol iddo, a yw'r ymgeisydd yn derbyn eithriad neu ddisgownt arall neu a yw'n gymwys i dderbyn cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Gallai newidiadau i'r polisi olygu fod mwy o geisiadau'n cael eu cyflwyno o dan y polisi gostyngiadau dewisol. Fodd bynnag, mae'n dangos ymrwymiad i gefnogi preswylwyr agored i niwed. Mae hyn yn cyd-fynd â'n nod tymor hir o greu cymuned dosturiol, gynhwysol a chryfhau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau lleol. |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Gallai hyn o bosib arbed costau. Trwy leihau straen ariannol ar breswylwyr sydd â salwch terfynol a'u teuluoedd, gallai'r polisi leihau dibyniaeth ar wasanaethau cefnogi mewn argyfwng ac efallai na fydd rhaid i'r Awdurdod gychwyn prosesau costus i adennill dyledion. |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy | Na, ond mae nifer gynyddol o awdurdodau lleol yn Lloegr eisoes yn cynnig 100% o ostyngiad i unigolion sydd â salwch hirdymor. Bu Marie Curie yn ymgyrchu am y newid hwn er mwyn sicrhau nad oes neb yn wynebu tlodi ar ddiwedd eu hoes. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Nac ydi. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Effaith Cadarnhaol: Mae'r polisi'n cefnogi unigolion sydd â chyflyrau iechyd difrifol (anabledd) a'u teuluoedd, gan hyrwyddo tegwch a lleihau anghyfartaledd ariannol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Effaith gadarnhaol sylweddol: Yn aml mae salwch terfynol yn arwain at leihau incwm a chynyddu costau. Mae cynnig gostyngiad o 100% yn lleddfu caledi ariannol i deuluoedd sydd eisoes yn agored i anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Bydd yr holl ffurflenni cais, canllawiau a gohebiaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y polisi'n cynnal yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan sicrhau y gall preswylwyr gyfathrebu yn eu dewis iaith. |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Bethan H Owen, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, yn dirprwyo ar ran Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA. |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

**F - Atodiadau:**

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

## 1. Pwrpas

**1.1** Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn am gymeradwyaeth i newid Polisi Gostyngiadau Dewisol y Dreth Gyngor, o dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r newid arfaethedig yn cyflwyno gostyngiad o 100% yn y Dreth Gyngor ar gyfer aelwydydd lle mae unigolyn sydd â salwch terfynol yn byw fel ei unig neu brif breswylfa. Nod y mesur hwn yw darparu cefnogaeth ariannol dosturiol i breswylwyr pan fyddant yn derbyn gofal diwedd oes, lleihau caledi a sicrhau fod y Cyngor hefyd yn mabwysiadu'r arfer orau a fabwysiadwyd gan awdurdodau blaengar eraill.

## 2. Cefndir

**2.1** Ar hyn o bryd mae Polisi Gostyngiadau Dewisol y Dreth Gyngor yn cynnig rhyw gymaint o ostyngiad o dan amgylchiadau eithriadol, yn bennaf trwy ddarpariaethau caledi. Yn aml mae unigolion sy'n cael diagnosis o salwch terfynol yn wynebu heriau ariannol ac emosiynol, gan gynnwys gostyngiad yn eu hincwm a chynnydd mewn costau gofal. Gall y ffactorau hyn olygu fod unigolion yn mynd i ddyled a'u bod yn wynebu camau gorfodaeth, gan ychwanegu at eu gofidiau mewn cyfnod sydd eisoes yn anodd.

**2.2** O dan Adran 13A Deddf Llywodraeth Leol 1992, gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgresiwn i leihau neu ddileu atebolrwydd Treth Gyngor ar gyfer unigolion neu ddosbarthiadau o drethdalwyr. Mae sawl cyngor yn Lloegr wedi cyflwyno cynlluniau tebyg ac maent yn cynnig gostyngiad o hyd at 100% i breswylwyr sydd â salwch terfynol. Mae hyn yn cael ei ystyried yn arfer orau yn gyffredinol ac mae'n cael ei gefnogi gan grwpiau eiriolaeth cenedlaethol megis Marie Curie, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd lleihau straen ariannol pan fydd unigolion yn derbyn gofal diwedd oes.

**2.3** Bydd y newid arfaethedig yn y polisi yn berthnasol i aelwydydd lle mae unigolyn sydd â salwch terfynol yn byw fel ei unig neu brif breswylfa. Bydd angen tystysgrif feddygol SR1 i gadarnhau bod yr unigolyn yn gymwys a bydd y gostyngiad yn parhau am ddau fis yn dilyn dyddiad marwolaeth y preswylydd, oni bai y byddai hyn yn golygu fod y gostyngiad yn weithredol am fwy na 12 mis.

## 3. Effaith Ariannol

**3.1** 'Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 36,054 o bobl wedi marw yn 2023 ac ystyriwyd bod tua 32,449 o'r unigolion hynny - sef tua 90% - angen gofal lliniarol neu ofal diwedd oes yn ystod y flwyddyn honno. Mae hynny'n rhoi darlun clir: bob blwyddyn, mae tua 32,000 o bobl yng Nghymru yn cyrraedd diwedd eu hoes ac mae angen gofal a chefnogaeth arbenigol arnynt'. (Ffeithiau ac ystadegau allweddol - Diweddarwyd 10 Gorffennaf 2025 - Marie Curie).

**3.2** Mae 32,449 o bobl gyfystyr â thua 1.04% o boblogaeth Cymru (yn seiliedig ar yr amcangyfrif bod poblogaeth Cymru yn 3,107,500). Trwy ddefnyddio'r un ganran ar gyfer poblogaeth Ynys Môn, sef oddeutu 70,000, mae'n awgrymu fod tua 728 o unigolion yn debygol o fod yn wynebu diwedd eu hoes bob blwyddyn.

**3.3** Mae'n anodd mesur goblygiadau ariannol caniatáu gostyngiad o 100% yn y Dreth Gyngor i unigolion sy'n wynebu diwedd eu hoes. Mae hyn oherwydd bod amgylchiadau'n gallu amrywio'n fawr: efallai bod rhai unigolion eisoes yn derbyn gostyngiadau neu eithriadau, a bydd llawer â hawl i gefnogaeth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r ffactorau hyn sy'n gorgyffwrdd yn golygu ei bod yn anodd cyfrifo cyfanswm y gost ariannol heb ddadansoddi achosion unigol.

**3.4** Bydd effaith ariannol y polisi hwn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau cymwys a gyflwynir. Gallai'r gost gael ei hymgorffori yn y dyraniad presennol ar gyfer y gyllideb ddewisol, a gallai'r polisi gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol yn gysylltiedig â chasglu dyledion a chamau gorfodaeth yn erbyn teuluoedd agored i niwed. Rhoddir fframwaith fonitro ar waith er mwyn cadw llygaid ar y niferoedd sy'n defnyddio'r cynllun a'r oblygiadau ariannol a chynhelir adolygiad ffurfiol cyn pen 12 mis.

## 4. Newidiadau Arfaethedig i'r Polisi

**4.1** Nod y newidiadau arfaethedig i'r polisi Treth Gyngor yw darparu cefnogaeth ychwanegol i breswylwyr sy'n cael diagnosis o salwch terfynol. Nodir y newidiadau hyn yn Atodiad A, yn yr adran sydd wedi'i hamlygu, ac mae'n dangos sut y byddai'r meini prawf cymhwysedd a'r gostyngiad yn cael eu gweithredu.

# POLISI RHYDDHAD DEWISOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR

**Cefndir**

Mae Adran 13A, is-adrannau (1) (c); (6) a (7), o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (DCLIL) 1992 (yn unol ag Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 2012) yn rhoi'r grym i awdurdod bilio ostwng swm y dreth sy'n daladwy fel a ganlyn:-

**(1)(c)** Mewn unrhyw achos, gellir ei lleihau i'r fath raddau (neu i raddau pellach os yw'r swm wedi ei ostwng dan baragraffau (a) neu (b)) sydd yn addas ym marn yr awdurdod bilio ar gyfer yr ardal ble lleolir yr annedd;

**(6)** Mae'r grym a roddir dan is-adran (1) (c) yn cynnwys y grym i ostwng y swm i ddim; a

**(7)** Gellir defnyddio'r grym o dan is-adran (1) (c) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddosbarth o achosion penodol lle bydd yr atebolrwydd yn cael ei ostwng i'r graddau y darperir ar ei gyfer yn y penderfyniad.

Mae hyn yn golygu y gall Cyngor Sir Ynys Môn roi rhyddhad dewisol mewn perthynas ag unrhyw swm dreth gyngor sy'n ddyledus iddo, hyd yn oed os yw'r Cyngor eisoes wedi dyfarnu gostyngiad dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unol ag Adran 13A (1) (b ).

Mae'r polisi hwn yn nodi'r modd y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried ac yn caniatáu rhyddhad dan Adran 13A (1) (c).

**Pwrpas y polisi**

**a)** Adran 1 y polisi sy'n manylu ar y dosbarthiadau o achosion a all fod yn gymwys i dderbyn gostyngiad yn unol ag Adran 13A (1) (c);

**b)** Adran 2 y polisi sy'n amlinellu'r amodau y bydd raid eu bodloni er mwyn i'r Cyngor ystyried rhoi rhyddhad o dan Adran 13A (1) (c) ar gyfer pob achos arall nad yw wedi'i gynnwys yn Adran 1.

Bwriad y polisi yn y pen draw yw galluogi'r Cyngor i roi rhyddhad i'r rhai sy'n dioddef y caledi ariannol mwyaf eithafol o ran costau'r Dreth Gyngor.

Mae'r Cyngor eisoes â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor yn unol ag adran 13A (1) (b) o DCLIL 1992. Gellir lawrlwytho Cynllun y Cyngor ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn:-

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Treth-cyngor/Gostyngiadau-ac-eithriadau/Cynllun-Gostyngiadaur-Dreth-Gyngor.aspx

Mae'r polisi hwn ar ryddhad dewisol yn un gwahanol ac yn annibynnol i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**Adran 1**

**A. Adran 13A (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer dosbarthiadau o bobl**

**1. Person(au) cymwys - gadawyr gofal – (MAE'R RHYDDHAD YMA'N GYMWYS AM GYFNODAU CYN 1 EBRILL 2019 YN UNIG)**

Gall y Cyngor benderfynu peidio â chodi unrhyw dreth gyngor o gwbl ar y rhai sy'n gadael gofal ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r holl feini prawf canlynol:-

- Bod y person yn adawr gofal perthnasol yn berson ifanc categori 3 fel y'i diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- Bod y person yn un yr oedd Cyngor Sir Ynys Môn yn rhiant corfforaethol iddo/iddi yn flaenorol;
- Bod y person wedi gadael gofal ac mae rhwng 18 ac 24 oed ac iau. Mae'r person yn byw yn ardal Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n atebol i dalu dreth gyngor i Gyngor Sir Ynys Môn.

Pan fo'r gadawr gofal yn atebol am fwy nag un annedd, rhoddir rhyddhad dewisol ar gyfer un eiddo yn unig - sef unig neu brif breswylfa'r person.

Os mai'r gadawr gofal yw'r unig berson sy'n byw yn yr annedd, ac os yw dros 18 oed, bydd swm y dreth gyngor sydd i'w dalu ar gyfer yr annedd honno'n cael ei ostwng i ddim.

Pan fo'r gadawr gofal yn byw gyda pherson arall yn yr eiddo ond, yn rhinwedd Adran 6 (2) o DCLIL 1992 "hierarchaeth atebolrwydd", bod y gadawr gofal yn gwbl gyfrifol am dalu'r dreth gyngor (ac nad yw atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol yn gymwys), caniateir gostyngiad o 25% yn y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Pan fo'r gadawr gofal yn atebol ar y cyd ac yn unigol am yr annedd hefo rhywun arall sydd wedi gadael gofal, naill ai fel fel gŵr neu wraig neu fel partner (ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn), bydd swm y dreth gyngor sydd i'w dalu ar gyfer yr annedd honno'n cael ei ostwng i ddim.

Pan fo'r gadawr gofal yn atebol ar y cyd ac yn unigol gyda gŵr neu wraig neu bartner nad ydynt wedi gadael gofal (ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn), bydd gostyngiad o 25% yn swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Os oes gan gadawr gofal denantiaeth ar y cyd â thenant arall (nad yw wedi gadael gofal) ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn, bydd gostyngiad o 25% yn swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Os yw gadawr gofal â thenantiaeth ar y cyd â thenant arall (sydd hefyd wedi gadael gofal) ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n byw yn yr eiddo, bydd swm y dreth gyngor sydd i'w dalu ar gyfer yr annedd honno'n cael ei ostwng i ddim.

**Gofyn am gymorth**

Fel rheol, bydd ceisiadau am ostyngiad yn cael eu gwneud gan Wasanaeth Plant y Cyngor. Yn yr achos hwn, bydd ceisiadau:-

- Yn cael eu hanfon drwy e-bost at dîm y dreth gyngor;
- Yn cadarnhau bod y gadawr gofal wedi cael gwybod am y bwriad i gyflwyno'r cais ar ei ran ac y bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhannu gyda thîm y dreth gyngor at y diben hwn a bod yr unigolyn wedi cytuno i hynny;
- Yn cadarnhau bod y gadawr gofal yn cwrdd â'r gofynion o ran hawl;
- Yn cadarnhau enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r gadawr gofal.

Gall gadawr gofal cymwys gyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r tîm dreth gyngor. Dylai ceisiadau gynnwys tystiolaeth ategol gan Wasanaeth Plant y Cyngor fod y gadawr gofal yn bodloni'r gofynion. Fel arall, dylai ceisiadau gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi caniatáu i'r tîm dreth gyngor gael gwybodaeth yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Plant.

Wrth wneud y penderfyniad, asesir y canlynol:-

-  A yw'r gadawr gofal wedi gwneud cais am unrhyw ryddhad, eithriadau neu ddisgowntiau cenedlaethol y byddent yn gymwys iddynt. Rhaid i'r rhain gael eu hasesu cyn caniatáu rhyddhad dewisol i adawyr gofal.
-  A yw'r gadawr gofal wedi gwneud cais am unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor y byddent yn gymwys iddo. Dylai hyn gael ei asesu cyn caniateir rhyddhad Gadael Gofal.
-  Dyddiad y diwrnod cyn pen-blwydd y gadawr gofal yn 25 oed sy’n pennu’r diwrnod y daw cyfnod y dyfarniad i ben.
-  A yw Gwasanaeth Plant y Cyngor neu gorff cyhoeddus neu sefydliad proffesiynol arall wedi cadarnhau bod y person ifanc yng ngofal (yn ‘derbyn gofal’) gan y Cyngor.
-  Pa Gyngor yw'r awdurdod bilio dreth gyngor y mae'n rhaid i’r gadawr gofal dalu dreth gyngor iddo?

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

**2. Person(au) cymwys – gofalwyr maeth**

Bydd y Cyngor yn rhoi disgownt o 50% yn erbyn atebolrwydd dreth gyngor gofalwyr maeth dynodedig. Fe gynhwysir y disgownt fel rhan o’r pecyn maethu ar gyfer gofalwyr maeth yr awdurdod lleol ac fe’i rhoddir i’r gofalwyr maeth ar gofrestr y Cyngor **yn unig**. Fe roddir y disgownt yn yr amgylchiadau canlynol:-

-  Mae enwau a chyfeiriadau’r gofalwyr maeth ar gofrestr y Cyngor;
-  Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Cyngor wedi cadarnhau hyn’
-  Bydd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd yn cynghori ar unrhyw ddiwygiadau i’r Gofrestr, gan ddarparu enw a’r cyfeiriad a dyddiad effeithiol y newid’
-  Bydd y disgownt yn effeithiol **ar ôl** gweithredu’r eithriadau / disgowntiau statudol a, lle bo’n berthnasol, y cyfrifiad o’r Gostyngiad Dreth Gyngor;
-  Bydd unrhyw falans sy’n ddyledus wedyn yn cael ei leihau gan 50% o dan y dosbarth yma o bersonau cymwys. Os nad oes balans yn ddyledus o ganlyniad i eithriadau / disgowntiau statudol neu gyfrifiad o’r Gostyngiad Dreth Gyngor, ni ellir roddi disgownt gofalwyr maeth;
-  Fe roddir y disgownt i un cyfeiriad yn unig lle mae’r gofalwr/gofalwyr maeth yn atebol i dalu’r Dreth Gyngor i Gyngor Sir Ynys Môn, h.y. y cyfeiriad a ddangosir yng nghofrestr y Cyngor o ofalwyr maeth ac os yw’r eiddo hefyd yn brif neu unig breswylfa’r gofawlwr/gofalwyr maeth.

Yn flynyddol, yn Chwefror, bydd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Cyngor yn cyflwyno cadarnhad o’r enwau a chyfeiriadau cyfredol ar ggofrestr gofalwyr maeth y Cyngor a chymherir y gofrestr yma gan yr Adain Refeniw gyda chofnodion y Dreth Gyngor. Bydd unrhyw anghysondebau yn cael eu datrys rhwng y ddau wasanaeth.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau, yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

## 3. Personau cymwys - unigolion sydd â salwch terfynol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu rhoi **gostyngiad o 100% ar y Dreth Gyngor** i aelwydydd lle mae gan breswylydd salwch terfynol a'i fod yn byw yn y sir.

Nod y gefnogaeth hon yw lliniaru pwysau ariannol i breswylwyr sydd â salwch terfynol a'u teuluoedd, a chaniatáu iddynt ganolbwyntio ar eu gofal heb wynebu'r straen o orfod talu'r Dreth Gyngor. Mae'r polisi'n adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i degwch, trugaredd a chefnogi preswylwyr agored i niwed.

**Meini Prawf Cymhwyso**

- Diffinnir person sydd â salwch terfynol fel person sydd wedi cael diagnosis gan ymarferydd meddygol cofrestredig o salwch neu gyflwr:-
    - nad oes modd ei wella; a
    - sy'n debygol o achosi marwolaeth.
- Mae'r gostyngiad yn weithredol o ddyddiad cyflwyno **ffurflen SR1**, ond nid cyn dyddiad cychwyn swyddogol y cynllun (**1 Ebrill 2026**), ac mae'n parhau am **ddau fis ar ôl dyddiad y farwolaeth** neu am 12 mis (pa un bynnag a ddigwydd gyntaf). Bydd y gostyngiad dewisol yn weithredol am hyd at 12 mis.

**Cynllun Gostyngiadau**

- Bydd y cynllun yn cychwyn ar **1 Ebrill 2026**; gellir cyflwyno ceisiadau o'r dyddiad hwn ymlaen.
- Mae'r gostyngiad yn berthnasol i:-
    - Eiddo yn ardal **Cyngor Sir Ynys Môn**.
    - Eiddo lle mae'r preswylydd sydd â salwch terfynol yn byw fel ei **unig a phrif breswylfa**, neu lle'r oedd yn byw cyn derbyn gofal mewn ysbyty / lleoliad gofal.
- Bydd y gostyngiad yn **100% o'r atebolrwydd Dreth Gyngor** ar ôl caniatáu rhyddhad, eithriadau neu ostyngiadau cenedlaethol eraill (e.e. Gostyngiad Person Sengl).
- Os yw'r atebolrwydd yn newid (e.e. mae disgownt arall yn cael ei ddyfarnu), bydd y gostyngiad ar gyfer salwch terfynol yn cael ei addasu fel nad yw'n fwy na chyfanswm yr atebolrwydd.
- Bydd y gostyngiad yn parhau'n weithredol am:-
    - Ddau fis ar ôl i'r preswylydd sydd â salwch terfynol farw; neu
    - 12 mis (pa un bynnag a ddigwydd gyntaf).
- Mae'n rhaid i'r trethdalwr hysbysu'r Cyngor os bydd ei amgylchiadau'n newid.
- Cyhoeddir bil Dreth Gyngor wedi'i addasu i ddangos y gostyngiad. Os gwrthodir y cais, bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu gan esbonio'r rhesymau.

**Gwneud Cais**

- Mae'n rhaid gwneud cais trwy anfon **e-bost** at revenuerefeniw@ynysmon.llyw.cymru neu drwy **Borth Dinasyddion y Cyngor** ar y wefan.
- Bydd angen cyflwyno'r dystiolaeth ganlynol:-
    - Copi o'r **ffurflen SR1** sy'n dangos blaen a chefn y ffurflen.
    - Gall yr ymgeisydd / darparwr gofal ddarparu copi o'r ffurflen neu, o dan amgylchiadau eithriadol, a gyda chaniatâd, gall y Cyngor ofyn i'r ymarferydd meddygol / meddyg teulu am gopi.
- Mae angen datganiad sy'n cadarnhau bod y preswylydd sydd â salwch terfynol yn byw yn yr eiddo fel ei **unig a phrif breswylfa**.
- Bydd y broses ar gyfer penderfynu ar geisiadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael eu hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran o dan y pennawd **G**. **"Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi.

**B. Adran 13a (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer dosbarthiadau o anheddau**

1. **Annedd(anheddau) cymwys - anheddau sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir ac yn cael gwaith atgyweirio mawr neu y mae gwaith strwythurol yn cael ei wneud arnynt fel y gall pobl fyw ynddynt**

   Efallai na fydd y Cyngor yn codi'r premiwm Dreth Gyngor (fel y penderfynwyd arno ar gyfer y cyfnod perthnasol gan y Cyngor) ar gyfer anheddau dynodedig sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:-

   - *"Os oes gwaith atgyweirio mawr neu gwaith strwythurol yn cael ei wneud yn yr annedd fel y gall pobl fyw ynddo, bydd yr annedd yn cael ei hystyried fel annedd Eithriedig Dosbarth A o dan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Eithriedig) 1992 OS 558, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Eithriedig) (Diwygiad) (Cymru) 2000 OS 1025 (W.61), o'r dyddiad a bennwyd.*

   - *Ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis, pan ddaw'r eithriad Dosbarth A i ben, efallai y caniateir eithriad pellach rhag talu'r premiwm eiddo gwag am gyfnod pellach o hyd at 12 mis, cyn belled:-*

     ***a.*** *Bod y gwaith atgyweirio/strwythurol yn mynd rhagddo a bod cynnydd yn cael ei wneud;*

     ***b.*** *Bod gwaith atgyweirio mawr / strwythurol yn cael ei wneud yn yr eiddo o hyd er mwyn galluogi i bobl fyw ynddo. (Os yw'r gwaith ar yr eiddo wedi cael ei gwblhau a bod yr eiddo'n dal i fod yn wag, bydd rhaid talu'r premiwm o'r dyddiad pryd y cwblhawyd y gwaith, os nad oes unrhyw eithriadau eraill yn berthnasol.)*

     *Gweler Atodiad A am enghreifftiau o'r math o amgylchiadau lle caniateir eithriad.*

   - *Os bydd prynwr tro cyntaf * gyda chysylltiad lleol** yn prynu eiddo gwag hirdymor, gyda'r bwriad o atgyweirio'r eiddo i'w ddefnyddio fel eu prif neu unig breswylfan unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, gallant wneud cais i gael eu heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor ar yr eiddo am y 12 mis cyntaf o ddyddiad prynu'r eiddo (yn unol â Dosbarth A) ac am eithriad pellach rhag talu'r premiwm eiddo gwag am gyfnod pellach o hyd at 24 mis cyn belled bod y gwaith yn mynd rhagddo, bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y gwaith heb ei gwblhau. (Mae amodau ynghlwm â chaniatáu'r eithriad Dosbarth A).*

***<u>Diffiniadau</u>***

- ***Rhaid i ymgeiswyr fod yn brynwyr am y tro cyntaf erioed****
  *(Prynwr/prynwyr am y tro cyntaf erioed yw pobl nad ydynt erioed wedi bod yn berchen ar eiddo yn y gorffennol, ar eu pen eu hunain neu fel cwpwl.)*

- ***Rhaid i ymgeiswyr fod â chysylltiad lleol*****
  *Mae cysylltiad lleol yn golygu bod yr ymgeisydd, neu o leiaf un o'r ymgeiswyr, wedi:-*

  - *Byw neu weithio ar Ynys Môn am gyfnod parhaus o bum mlynedd neu fwy yn union cyn cyflwyno'r cais; neu*

  - *Wedi byw ar Ynys Môn am gyfnod parhaus o bum mlynedd neu fwy rhywbryd yn y gorffennol*

**Gofyn am gymorth**

Gall perchennog yr annedd ddynodedig gyflwyno cais ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r tîm dreth gyngor. Dylai ceisiadau gynnwys tystiolaeth ategol o waith atgyweirio strwythurol mawr sy'n cael ei wneud yn yr annedd fel y gall rhywun fyw ynddi. Bydd y tîm dreth gyngor yn cynnal archwiliad o'r eiddo i wirio cyflwr presennol yr eiddo a'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn cadarnhau a ydyw o natur strwythurol ai peidio.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

## Adran 2

## C. Adran 13a (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer personau neu ddosbarthiadau o anheddau ac eithrio'r rhai a ddynodir yn Adran 1 y polisi hwn

### 1. Cynllun rhyddhad dewisol

Mae Adran 13A (1) (c) yn caniatáu i'r Cyngor y disgresiwn i roi cymorth i dalwyr y dreth gyngor mewn achosion lle nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu disgownt, eithriad neu ostyngiad neu mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor yn teimlo bod lefel y disgownt, eithriad neu ostyngiad yn annigonol o ystyried yr amgylchiadau. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu cymorth dewisol, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant (ac eithrio ceisiadau gan unigolion neu ar gyfer anheddau sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 1 y polisi hwn). Bydd egwyddorion rhesymoldeb yn cael eu defnyddio ym mhob achos gyda'r Awdurdod yn penderfynu ar bob achos ar sail ei rinweddau perthnasol.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud heb gyfeiriad at unrhyw ystyriaethau cyllidebol er bod rhaid cydbwyso unrhyw ddyfarniadau yn erbyn anghenion trethdalwyr lleol a fydd, yn y pen draw, yn talu am unrhyw ostyngiad yn incwm y Dreth Gyngor. Yn yr un modd, bydd cyfnod unrhyw daliadau gostyngol yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag amgylchiadau talwr y dreth gyngor neu'r annedd. I ddibenion gweinyddu, mae'r Cyngor yn cynnig y dylai'r grym dewisol i ganiatáu unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor gael ei ystyried o fewn y categorïau canlynol:-

#### a) Caledi ariannol eithriadol

Yn unol ag Adran 13A (1) (b) o DCLIL 1992, mae gan y Cyngor hwn Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n darparu cymorth, ar ffurf gostyngiad, i'r sawl sydd angen cymorth i dalu eu costau Dreth Gyngor. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i gymryd i ystyriaeth amgylchiadau ariannol a phenodol unigolion trwy ddefnyddio symiau a phremiymau perthnasol a thrwy ddiystyru incwm.

Gall pob trethdalwyr wneud cais, fodd bynnag, fel rheol bydd y Cyngor, yn y lle cyntaf, yn disgwyl bydd i'r trethdalwr ganfod a yw'n gymwys ar gyfer Gostyngiad yn y Dreth Gyngor.
Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais am ostyngiad dewisol yn y Dreth Gyngor, rhaid i bob ymgeisydd fod yn barod i wneud y **cyfan** o'r isod:-

- Gwneud cais ar wahân am gymorth;
- Rhoi manylion llawn am eu hincwm a'u gwariant (darperir ffurflen i'r pwrpas hwn);
- Rhaid i'r trethdalwr fedru bodloni'r Cyngor nad ydynt yn gallu talu eu dreth gyngor yn llawn neu'n rhannol;
- Nodi newidiadau posibl mewn dulliau talu a threfniadau i gynorthwyo'r ymgeisydd;
- Y trethdalwr i gynorthwyo'r Cyngor i ostwng y swm sy'n daladwy ganddynt drwy sicrhau eu bod wedi ymgeisio am yr holl ddisgowntiau, eithriadau a gostyngiadau yn y modd priodol a bod y rhain wedi eu caniatáu; a
- Nad oes gan y trethdalwr asedau y gellid eu gwireddu a'u defnyddio i dalu'r Dreth Gyngor.

Dyla'r trethdalwr ddarllen Polisi Preifatrwydd y Cyngor cyn gwneud cais am ryddhad dewisol oherwydd caledi ariannol eithriadol.

Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu'r cais o dan y polisi hwn:-

- Cyfansoddiad presennol yr aelwyd ac amgylchiadau penodol gan gynnwys anableddau neu gyfrifoldebau gofalu;
- Amgylchiadau ariannol presennol;
- Penderfynu ar y cam(au) y mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd i leddfu'r sefyllfa;
- Ystyried dulliau eraill o gymorth a all fod ar gael i'r ymgeisydd trwy:-

  **i.** Ailbroffilio dyledion dreth gyngor neu ddyledion eraill;
  **ii.** Gwneud cais am Dâl Tai Dewisol i gwrdd â chostau rhent (os yw'n berthnasol);
  **iii.** Sicrhau cymaint o fudd-daliadau eraill ag sy'n bosibl (trwy mofyn cyngor lles);
  **iv.** Penderfynu a ddylai blaenoriaethau gwariant yr ymgeisydd, ym marn y sawl sy'n gwneud penderfyniad, gael eu haildrefnu yn wyneb y ffaith bod y Dreth Gyngor yn ddyled y mae angen rhoi blaenoriaeth iddi.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

**b) Argyfwng - llifogydd, tân ac ati**

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth gan dalwyr y dreth gyngor sydd, heb unrhyw fai arnynt eu hunain, wedi dioddef argyfwng neu ddigwyddiad sy'n golygu nad yw eu tŷ yn addas i fyw ynddo, e.e. tân neu lifogydd, lle maent yn parhau i fod yn atebol i dalu'r dreth gyngor a heb unrhyw fodd o gael iawndal neu unrhyw eithriadau neu ddisgowntiau statudol.

Rhaid gwneud pob cais o'r fath yn ysgrifenedig yn manylu ar yr **union** amgylchiadau sy'n berthnasol i'r gostyngiad y gofynnir amdano ac yn nodi pryd y disgwylir i'r sefyllfa gael ei datrys.

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau fesul achos mewn ymgynghoriad â gwasanaethau neu sefydliadau eraill fel sy'n briodol. Bydd unrhyw ostyngiad yn cael ei ganiatáu mewn achosion lle maent yn parhau i fod yn atebol i dalu'r dreth gyngor a dim hawl ganddynt i unrhyw iawndal neu eithriadau neu ddisgowntiau statudol neu lle nad yw'r argyfwng neu'r digwyddiad wedi cael ei gynnwys mewn unrhyw bolisi yswiriant. Ni fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan drethdalwyr lle mae canllawiau neu bolisi datganoledig gan y llywodraeth yn darparu ar gyfer gostyngiad mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft cynlluniau rhyddhad ar gyfer llifogydd.

**c) Amgylchiadau eraill**

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan dalwyr y Dreth Gyngor am ostyngiad yn eu dreth gyngor yn seiliedig ar amgylchiadau eraill nad ydynt wedi eu crybwyll yn benodol yn y polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor fod o'r farn bod yr amgylchiadau sy'n berthnasol i'r cais yn teilyngu gostyngiad pellach yn y Dreth Gyngor y maent yn atebol i'w thalu, gan ystyried yr effaith ar dalwyr eraill y dreth gyngor.

Ni chaniateir gostyngiad yn y dreth gyngor sydd i'w thalu mewn amgylchiadau lle gellid caniatáu eithriad neu ddisgownt statudol. Ni chaniateir gostyngiad yn y dreth gyngor lle byddai hynny'n gwrthdaro ag unrhyw un o benderfyniadau, blaenoriaethau craidd neu amcanion y Cyngor.

**CH. Newidiadau mewn amgylchiadau**

Gall y Cyngor adolygu unrhyw ostyngiad dewisol yn y dreth gyngor sy'n daladwy a ganiatawyd dan Adran 1 ac Adran 2 lle mae amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid.

Mae'r trethdalwr yn cytuno bod rhaid iddo / iddi hysbysu'r Cyngor ar unwaith naill ai dros y ffôn, drwy e-bost neu yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau a allai effeithio ar eu cais dan y polisi hwn. Gall methu â gwneud hynny arwain at dynnu'n ôl y gostyngiad a ganiatawyd am y flwyddyn a mynnu ad-daliad o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Cyngor. Rhaid rhoi gwybod am yr holl newidiadau mewn amgylchiadau ymhen 21 diwrnod.

## D. Dyletswyddau'r ymgeisydd ac aelwyd yr ymgeisydd

Rhaid i berson sy'n gwneud cais am unrhyw ostyngiad dewisol yn y dreth gyngor sy’n daladwy:-

- Roddi i’r Cyngor unrhyw wybodaeth y mae ei hangen i wneud penderfyniad;
- Dweud wrth y Cyngor am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a all fod yn berthnasol i'w cais; a
- Rhoi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth arall y gall fod ei hangen mewn cysylltiad â'u cais.
- Parhau i wneud taliadau yn unol â’r rhwymedigaeth statudol hyd nes y bydd penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud mewn perthynas â’r cais am gymorth o dan y polisi dewisol.”

## DD. Y dyfarniad a chyfnod y gostyngiad yn y dreth gyngor

Pennir swm a hyd y dyfarniad yn unol â disgresiwn y Cyngor a gwneir hynny ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd ac amgylchiadau'r cais.

## E. Taliad

Yn unol â deddfwriaeth, bydd unrhyw ddyfarniad yn cael ei ganiatáu fel gostyngiad o ran y swm y bydd talwyr y dreth gyngor yn ei dalu ac a ddangosir ar eu bil, gan leihau swm y Dreth Gyngor sy'n daladwy.

## F. Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor a roddwyd drwy gamgymeriad neu yn anghywir

Lle mae gostyngiad wedi ei ganiatáu yn anghywir neu drwy gamgymeriad, naill ai oherwydd methiant i ddarparu'r wybodaeth gywir i'r Cyngor neu darparu gwybodaeth anghywir neu oherwydd amgylchiadau eraill, bydd y swm yn cael ei adennill o gyfrif talwr y dreth gyngor yn y ffordd arferol.

## FF. Hysbysiad o ostyngiad yn y swm taladwy

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod ar bapur am ganlyniad pob cais. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys y rheswm dros y penderfyniad ac yn cynghori'r ymgeisydd am eu hawliau i apelio.

## G. Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ac apeliadau

Bydd unrhyw ryddhad a roddir yn unol ag Adran 1 y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan swyddog ar lefel Arweinydd Tîm neu uwch yn nhîm y Dreth Gyngor.

Bydd unrhyw ryddhad a roddir yn unol ag Adran 2 y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu Reolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a bydd swyddog ar lefel Arweinydd Tîm neu uwch yn nhîm y Dreth Gyngor yn cyflwyno adroddiad i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu Reolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i'w ystyried wrth wneud y penderfyniad.

Gall trethdalwyr ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad mewn perthynas â rhyddhad dewisol. Dylid cyflwyno cais ysgrifenedig am ailystyried penderfyniad ymhen 21 diwrnod o gael gwybod am y penderfyniad gwreiddiol a dylid nodi'r rhesymau dros y cais.

Ar ôl derbyn cais i ailystyried cais, bydd penderfyniadau a wneir dan Adran 1 y polisi yn cael eu hadolygu gan swyddog uwch o fewn tîm y Dreth Gyngor / Adnoddau. Ar gyfer penderfyniadau a wneir dan Adran 2 y polisi, yn dibynnu ar bwy wnaeth y penderfyniad, gellir eu hadolygu gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu gan unrhyw un o'r Prif Weithredwyr Cynorthwyol. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r trethdalwr o'i benderfyniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y cais i ailystyried y penderfyniad.

Nid oes gan y Tribiwnlys Prisio awdurdodaeth i ymchwilio i benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor ar achosion unigol mewn perthynas â rhyddhad dewisol dan Adran 13A yn Adran 2 y polisi. Mewn achosion o'r fath, mae’r Tribiwnlys Prisio o’r farn y dylai talwyr y dreth gyngor wneud cais i’r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

Os yw talwyr y dreth gyngor yn anfodlon â phenderfyniad y Cyngor i wrthod glynu wrth ei benderfyniad ei hun i ganiatáu gostyngiad i rai ddosbarthiadau penodol, gall apelio ymhellach i Dribiwnlys Prisio.

**Adran 3**

**NG. Adolygu'r Polisi**

Adoligir y polici hwn yn rheolaidd a'i diweddaru fel bo'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas.  Fodd bynnag, efallai y bydd adolygiad yn digwydd yn gynt os bydd unrhyw newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth.

Dyddiad Adolygu Ionawr 2022

**<u>Atodiad A</u>**

B.Adran 13a (1) (c) rhyddhad dewisol ar gyfer dosbarthiadau o anheddau.

**1.** Annedd (anheddau) cymwys – anheddau sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir y mae gwaith strwythurol yn cael ei wneud arnynt fel y gall pobl fyw ynddynt.

**Esiampl 1**

Prynir eiddo gan berchennog newydd sydd wedyn yn penderfynu gwneud gwaith mawr – dyfernir Dosbarth A ar gyfer y 12 mis cyntaf, wedyn rhoddir eithriad yn erbyn y premiwm am hyd at 12 mis pellach, cyn belled a bod y gwaith yn mynd rhagddo a bod cynnydd yn cael ei wneud.

**Esiampl 2**

Mae eiddo'n ddarostyngedig i eithriad Dosbarth A ac yna fe'i werthir i berchennog newydd cyn i'r cyfnod eithriad Dosbarth A ddod i ben. Bydd y perchennog newydd yn elwa o'r eithriad Dosbarth A hyd at ddiwedd y cyfnod 12 mis a bydd wedyn yn derbyn eithriad rhag y premiwm am 12 mis pellach, cyn belled a bod y gwaith yn mynd rhagddo a bod cynnydd yn cael ei wneud. Byddai'r eithriad rhag y premiwm yn dod i ben 2 flwyndedd ar ôl dyddiad caniatau'r eithriad Dosbarth A gwreiddiol, a dim 2 flynedd o ddyddiad prynu'r eiddo.

**Esiampl 3**

Mae eiddo'n ddarostyngedig i eithriad Dosbarth A ond mae hyn bellach wedi dod i ben. Nid yw y gwaith yn mynd rhagddo ac, o ganlyniad, mae'r eiddo'n ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag. Wedyn, fe werthir yr eiddo ac mae'r perchennog newydd yn gwneud cais am eithriad Dosbarth A. Gwrthodir y cais ar y sail nad yw'r eiddo wedi ei feddiannu am gyfnod o 42 diwrnod ers i'r cais gwreiddiol Dosbarth A ddod i ben. Fodd bynnag, caniateir eithriad o'r premiwm eiddo gwag am gyfnod o 12 mis o ddyddiad prynu'r eiddo, cyn belled a bod y gwaith yn mynd rhagddo, bod cynnydd yn cael ei wneud ac nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau.

**Esiampl 4**

Mae eiddo'n ddarostyngedig i eithriad Dosbarth 4 ond mae hyn bellach wedi dod iI ben. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn yr eiddo ac fe ganiatawyd eithriad rhag y premiwm eiddo gwag. Gwerthir yr eiddo cyn diwedd y cyfnod eithriad rhag y premiwm eiddo gwaag. Caniateir parhad i'r cyfnod eithriad rhag y premiwm i'r perchennog newydd hyd at ddiwedd y 12 mis o pryd y rhoddwyd i'r perchennog blaenorol, cyn belled a bod y gwaith yn mynd rhagddo, bod cynnydd yn cael ei wneud ac nid yw'r gwaih wedi'i gwblhau. Efallai bydd hyn yn lleihau'r amser sydd gan y perchennog newydd i orffen y gwaith cyn i'r eithriad ddod i ben, ond ar yr eiddo rhoddir yr eithiad, nid i drethdalwr, ac mae wedi caniatau ar gyfer cyfnod o 2 flynedd I gwblhau'r gwaith, hyd yn oed os yw ar gyfer 2 berchennog gwahanol.